

Tasg 3

Dwy ochr y geiniog

Dychmygwch eich bod chi'n un o'r dorf aeth i Gaerdydd i wylïo'r gêm rhwng Juventus a Real Madrid yng Nghwpan UEFA yng Nghaerdydd ar y 3ydd o Fehefin 2017. Cyn mynd i'r gwely y noson honno, rydych chi'n anfon neges destun at eich ffrind gorau yn disgrifio'r profiad. Ysgrifennwch sgwrs rhyngoch chi a'ch ffrind, hyd at 100 gair o hyd, yn sôn am eich diwrnod arbennig chi.

Cofiwch:

- mae iaith neges destun yn gryno ac yn slic
- mae'n bosib defnyddio symbolau yn lle llythrennau a geiriau, felly beth am drïo:
 - **@T (atat)**
 - **@B (ateb)**
 - **BXO (becso)**
 - **0 (ddim)**
 - **N2 (ein dau)**
 - **HLO (helo)**
 - **LL8xxx (llwyth o swsys)**
 - **9 (nain)**
 - **9r (nawr)**
 - **PBL (pobl)**
 - **RYW1 (rhywun)**
 - **T (ti)**
 - **V (fi)**
- mae'n bwysig cofio atalnodi
- cofiwch siarad yn y person cyntaf
- cofiwch mai edrych nôl ar eich diwrnod rydych chi'n ei wneud.